# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(169)v5

**Teyrngedau i Nelson Mandela**

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: PISA 2012 (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y llifogydd diweddar yng ngogledd Cymru (30 munud)**

**5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dŵr (15 munud)**

NDM5303 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno mai Senedd y DU ddylai ystyried darpariaethau'r Bil Dŵr fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 27 Mehefin 2013, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd

deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Medi 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil ewch i:

Bill documents - Water Bill [HC] 2013-14 - UK Parliament

**Dogfen Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Adroddiad ar y Bil Dŵr

**6 Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15 (60 munud)**

NDM5382 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:

Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-2015 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ar 3 Rhagfyr 2013.

Troednodyn:

Yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20.28, mae'r Gyllideb Flynyddol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

1. y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

2. yr adnoddau y cytunodd y Trysorlys arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru am y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

3. cysoni rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau i'w hawdurdodi i'w defnyddio yn y cynnig;

4. cysoni rhwng yr amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o'r Gronfa yn y cynnig; a

5. cysoni rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Darparwyd yr wybodaeth atodol ganlynol i'r Aelodau:

• Nodyn Esboniadol ar y newidiadau rhwng cynigion y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Flynyddol.

**Dogfen Ategol**
Y Gyllideb Flynyddol
Adroddiad ar Waith Craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15

**7 Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy (60 munud)**

NDM5381 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2012-13, fel y'i nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2013.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi gyda phryder y sylwadau a wnaed yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy, a bod "gwendidau systemig yn y strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy" o hyd.

Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Dileu "'r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2012-13, fel y'i nodir yn".

Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y rôl ganolog y mae addysg yn ei chwarae wrth ddatblygu dyfodol cynaliadwy i Gymru ac yn croesawu adolygiad thematig Estyn o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn gwella ei ffocws a chanfod gwelliannau.

Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y gostyngiad yn lefelau caffael bwyd lleol y sector cyhoeddus, nad oedd y strategaeth 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru' bresennol yn addas i'r diben ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun labelu cynhwysfawr ar gyfer bwyd a diod o Gymru.

Mae 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru - Strategaeth Fwyd i Gymru' ar gael yn:

http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/101207foodforwalesfoodfromwalescy.pdf

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i gasglu tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad ymarferol wrth ffurfio polisïau datblygu cynaliadwy a'u cynnwys mewn partneriaethau cyflawni.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi adroddiad ar sut y mae polisïau yn y Rhaglen Lywodraethu yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru.

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y cyfraniad a wnaed gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn ei sylwadau ar yr adroddiad.

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pryderon parhaus y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch elfennau o strwythur a chynnwys yr adroddiad.

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am Fil Cenedlaethau'r Dyfodol cadarn ac effeithiol i roi sylw priodol i'r

pwyntiau a godwyd gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ac i'r Gweinidog ymgysylltu â phob plaid a'r gymdeithas ddinesig ehangach wrth baratoi ar gyfer y Bil hwn.

Dogfen Ategol
Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy

**8 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae’r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae’r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:

1. Microsglodynnu
1,2,3

2. Gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw
4

3. Costau a dynnir gan drydydd part ï on
9,10

4. Person penodedig ar gyfer anghydfod
6, 7

5. Canllawiau
5, 8

Dogfennau Ategol
Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau wedi’u Didoli
Grwpio Gwelliannau

**9 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Rhagfyr 2013 i'w hateb ar 10 Rhagfyr 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A fydd adolygiad Llywodraeth Cymru o broses Adolygu Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yn ymestyn i geisiadau am bob cyffur nad ydynt wedi'u cymeradwyo gan NICE neu Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan eto? OAQ(4)1396(FM)

2. Byron Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu gwasanaethau bws yng Nghymru? OAQ(4)1399(FM)

3. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol addysg yng Nghymru? OAQ(4)1388(FM)

4. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod treftadaeth yr iaith Gymraeg yn cael ei dathlu? OAQ(4)1398(FM)

5. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru gyda'r Eisteddfod Genedlaethol? OAQ(4)1402(FM)W

6. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am osgoi digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd mewn ysbytai? OAQ(4)1395(FM)

**7. Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dargedau perfformiad Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1407(FM)

**8. David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau gan awdurdodau tân Cymru? OAQ(4)1394(FM)

**9. Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa adroddiadau ar ddeilliannau y mae'r Prif Weinidog yn eu cael er mwyn asesu'r gwaith o lwyfannu digwyddiadau mawr sy'n cael arian cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1403(FM)W

**10. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau Datganiad yr Hydref Llywodraeth San Steffan? OAQ(4)1401(FM)W

**11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â benthyca arian yn anghyfreithlon yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig? OAQ(4)1390(FM)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Beth yw goblygiadau Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU i Gymru? OAQ(4)1406(FM)

**13. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Papur Gwyn ar Gynllunio? OAQ(4)1405(FM)W

**14. Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygiad strategaeth Llywodraeth Cymru ar yr iaith Gymraeg? OAQ(4)1393(FM)W

**15. Sandy Mewies (Delyn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau cydraddoldeb wrth fynd i'r afael â'r angen am dai? OAQ(4)1404(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Toriad: Dydd Llun 16 Rhagfyr 2013 – Dydd Sul 12 Ionawr 2014

Dydd Mawrth 14 Ionawr a dydd Mercher 15 Ionawr 2014

Dydd Mawrth 21 Ionawr a dydd Mercher 22 Ionawr 2014

Dydd Mawrth 28 Ionawr a dydd Mercher 29 Ionawr 2014

*******************************************************************

Dydd Mawrth 14 Ionawr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon: Gwasanaethau Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Rhoi Polisi Amaethyddol Cyffredin newydd ar waith (30 munud)
- Cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â diwygio adran 98(1) o'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (15 munud)
- Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru Rhif 2) 2013 (15 munud)
- The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2014 (15 mins)
- Dadl: Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol ar gyfer 2014-15 (60 munud)
- Dadl: Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2012-13 (60 munud)

Dydd Mercher 15 Ionawr 2014

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 21 Ionawr 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynlluniau Newid Gwasanaethau Hywel Dda (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Perfformiad Llywodraeth Leol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Gwella perfformiad adeiladau yng Nghymru o ran eu defnydd o ynni (30 munud)
- Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Taliadau Gan Gynghorau Plwyf, Cynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter) 2013 (15 munud)
- Dadl ar sicrhau mynediad gwell at ein treftadaeth a'n diwylliant (60 munud)

**Dydd Mercher 22 Ionawr 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 28 Ionawr 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynnydd o ran gwella caffael cyhoeddus (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Adolygiad annibynnol o gryfder ffermio (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am bolisi trafnidiaeth (30 munud)

**Dydd Mercher 29 Ionawr 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad dilynol y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)